Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Swyddfa Bae Colwyn

8 Gorffennaf 2020

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 17 Mehefin, pan wnaethoch ofyn:

*A fyddech cystal â rhoi gwybod i mi faint o aelodau o'r cyhoedd a ddaeth i ymweld â'ch safle yn Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn, ym mhob un o'r misoedd rhwng mis Mawrth 2019 a mis Chwefror 2020 yn gynhwysol.*

Gallaf gadarnhau nad yw Comisiwn y Senedd yn cadw'r wybodaeth hon.

Yn 2008, cafodd swyddfa a chanolfan ymwelwyr Gogledd Cymru ym Mae Colwyn ei had-drefnu ac ers hynny nid yw'r swyddfa bellach yn gweithredu fel canolfan ymwelwyr, er ein bod yn parhau i groesawu'r cyhoedd. Mae ein gwasanaethau'n canolbwyntio ar rolau ymgysylltu ac allgymorth, canolfan gyswllt y Senedd, yn ogystal â chefnogi ein gweithwyr cartref, Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru.

Felly nid ydym yn cadw gwybodaeth am nifer y cyhoedd sy'n ymweld â'r swyddfa ym Mae Colwyn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae’ch cais wedi’i ystyried yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.** Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i’ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio’r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu’n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae’r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio’r cyfeiriad a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF